Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bancyfelin
# Bancyfelin
# Sir Gâr
# SA33 5ND

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bancyfelin yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Bancyfelin rhwng trefi Caerfyrddin a Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.  Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ardal leol, gyda chanran fach yn dod o'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Mae 39 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 7 disgybl oed meithrin. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r meithrin yn ystod y tymor y maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed.  Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn ddau ddosbarth: un dosbarth y Cyfnod Sylfaen ac un dosbarth cyfnod allweddol 2.

Daw 50% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd.  Mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae gan tua 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth, sydd hefyd â chyfrifoldeb am ddwy ysgol arall, wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2013.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bancyfelin yn 2014-2015 yw £4,046.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325.  Mae Ysgol Gynradd Bancyfelin yn safle 34ain o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Bod medrau llythrennedd a rhifedd bron pob disgybl yn datblygu'n effeithiol
- Bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- Bod ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn
- Bod bron pob disgybl yn awyddus i ddysgu ac yn dangos lefel uchel o gymhelliant ym mhob agwedd o waith ysgol
- Bod bron bob un disgybl yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r cyngor eco
- Bod yr ysgol yn darparu ystod amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb ac yn ateb gofynion disgyblion o bob oed yn llwyddiannus
- Bod safon yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol, â'r holl athrawon â disgwyliadau uchel
- Bod trefniadau da gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion
- Bod adeilad yr ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- Bod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol gan bennaeth cydwybodol sy'n llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni
- Bod y pennaeth wedi sefydlu systemau cyfathrebu effeithiol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff
- Bod yr ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol
- Bod aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus
- Bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- Bod gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn seiliedig ar godi safonau disgyblion
- Bod adroddiad hunanarfarnu, sy'n rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch dysgu, addysgu a safonau
- Bod cynllun datblygu ysgol, sydd wedi ei seilio ar ddeilliannau'r prosesau hunanarfarnu yn nodi blaenoriaethau gwella yn glir
- Bod gan yr ysgol bartneriaethau cynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid sy'n

cyfrannu'n gryf at godi safonau a gwella lles disgyblion
- Bod y pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r adeiladau, yr adnoddau a'r gyllideb yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Cynllunio ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd a pherthnasol i ddisgyblion ymateb i sylwadau marcio athrawon

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg neu ychydig yn is i’r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir. Maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, yn canolbwyntio ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae rhan fwyaf y disgyblion, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Maent yn mynegi eu syniadau'n hyderus gan ynganu a goslefu'n ddealladwy, gydag amrediad eang o eirfa a mesur da o gywirdeb. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cynnal sgyrsiau mewn modd aeddfed yn y Gymraeg a’r Saesneg, gan ddefnyddio geirfa raenus wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus gyda mynegiant cynyddol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r testun ac maent yn trafod cynnwys y llyfr yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau yn ystyrlon a gyda rhuglder a goslef llais priodol. Gwna llawer ddefnydd da o'u medrau darllen i ymchwilio i bynciau yn ymwneud â themâu dosbarth.

Mae safon ysgrifennu disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar draws y meysydd dysgu yn dda ac yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn atalnodi'n gywir, gyda'r goreuon yn amrywio cychwyn brawddegau ac yn gwneud defnydd effeithiol o ddyfynodau, ebychnod a ffurfiau cryno'r ferf, er enghraifft, wrth ysgrifennu portread o ddinosor. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol yn y ddwy iaith ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Mae’r goreuon yn dangos gwreiddioldeb yn aml wrth ddewis geirfa ac ymadroddion i greu effaith yn llwyddiannus. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i droi athro yn llyffant a llythyr o gwŷn i siop chwaraeon am ansawdd esgidiau rhedeg. Fodd bynnag, nid yw safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn gyson dda.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cyfri, mesur a thrin data ar lefel sy’n briodol i’w hoed a’u gallu ac yn hyderus wrth gymhwyso'r medrau hyn mewn sefyllfaoedd ymarferol i ddatrys problemau; er enghraifft, maent yn llunio rhicbrennau

a graff bar i ddynodi eu hoff flodyn. Yng nghyfnod allweddol 2, gall rhan fwyaf y disgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau o fewn meysydd eraill y cwricwlwm. Maent yn cymhwyso eu medrau mathemategol i ddatrys problemau rhif yn fedrus a gallant gofnodi a thrafod data'n hyderus, gan lunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth fesur, cofnodi a dadansoddi tymheredd dŵr fel rhan o ymchwiliad gwyddonol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer ac mae perfformiad y disgyblion mwy abl yn gryf.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r safonau a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac ar lawr y dosbarth yng nghyfnod allweddol 2, yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn tuag at gadw'n iach a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu clybiau allgyrsiol yr ysgol sy'n hybu eu ffitrwydd yn llwyddiannus.

Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn ac maent yn dangos gofal a phryder am les ei gilydd, er enghraifft drwy ddefnydd o'r 'Mainc Ffrindiau'. Mae bron bob disgybl yn awyddus i ddysgu ac yn dangos lefel uchel o gymhelliant ym mhob agwedd o waith ysgol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn sydd angen i wella eu dysgu eu hunain yn datblygu'n dda.

Mae bron bob un disgybl yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn gwneud penderfyniadau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion eraill, er enghraifft, gan ddatblygu gardd ysgol a chyfrannu'n at waith elusennol. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd y gymuned drwy gynnal gwasanaethau yn y pentref, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r henoed. Mae'r profiadau hyn yn datblygu amrediad o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd sy'n paratoi'r disgyblion yn effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol

Mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o’r pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ystod amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb ac yn ateb gofynion disgyblion o bob oed yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddiwylliant lleol a chenedlaethol yn effeithiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn addas, gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael lle amlwg yng ngweithdrefnau cynllunio'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ar draws holl bynciau’r cwricwlwm.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a’r cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau llafar a darllen yn y Gymraeg yn elfen gref drwy'r ysgol sy’n cyfrannu'n sylweddol tuag at godi safonau. Mae darpariaeth briodol ar gyfer y dimensiwn Cymreig sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn gwahodd Cymry enwog a llwyddiannus, o wahanol feysydd poblogaidd, i hybu'r agwedd hon yn effeithiol. Er enghraifft, bu i dri o gyn-ddisgyblion yr ysgol, sy’n arwyr ym myd rygbi Cymru, ymweld â’r ysgol i sôn am eu profiadau yn chwarae rygbi dros eu gwlad ac fel rhan o dîm y Llewod. Drwy hyrwyddo ysgol eco, ysgol iach a masnach deg yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel a defnyddiant amrywiaeth dda o adnoddau, dulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n ofalus ac fe roddir sylw priodol i ddatblygu medrau. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol ac mae perthynas waith adarnhaol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon a chynorthwywyr yn modelu patrymau iaith gywir ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd disgyblion. Maent yn holi’n dreiddgar ac yn cyfeirio'n benodol at yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod, er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Gwnânt sylwadau adeiladol i egluro’r hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda. Rhoddant arweiniad effeithiol ynghylch sut gall disgyblion wella agweddau penodol ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd rheolaidd

iddynt ymateb i sylwadau marcio ac mae hyn yn gwneud y broses yn llai effeithiol. Mae trefniadau da gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn dadansoddi a defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob disgybl ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd, fel y clwb chwaraeon, yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd y disgyblion. Mae'r clwb garddio, o dan arweiniad rhieni, athrawon a disgyblion o’r ysgol uwchradd, yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol am dyfu a pharatoi gwahanol lysiau ar gyfer eu bwyta, gan bwysleisio hylendid a diogelwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r meysydd hyn. Mae ymwelwyr yn cyfrannu'n llwyddiannus at y ddarpariaeth hon hefyd. Enghraifft o hyn yw’r ymweliadau rheolaidd gan y gweinidog lleol i gynnal gwasanaethau addoli ar y cyd. Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol sy’n cefnogi lles disgyblion yn dda. Enghraifft dda o hyn yw cyfranogiad gwasanaeth yr heddlu at drefniadau’r ysgol i sicrhau ymwybyddiaeth briodol y disgyblion o e-ddiogelwch

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ddulliau ar gyfer adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn effeithiol ac yn arwain at gynnydd cyson mewn dysgu a safonau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol manwl. Caiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn llawn yn y broses o adolygu cynnydd a datblygiad.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Nodwedd gref o’r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a thrwy hynny fagu agwedd o barch a hunanhyder. Mae'r arfer o arddangos tystysgrifau a ffotograffau mewn mannau cyhoeddus yn rhoi bri ar lwyddiannau'r disgyblion ac yn cydnabod eu cyfraniad i lwyddiant yr ysgol yn effeithiol.

Mae adeilad yr ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae cyflenwad addas o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio’r ardal tu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, y buarth chwarae a chae'r ysgol yn bwrpasol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae’r safle a'r adeilad eu cadw'n lân a graenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol gan bennaeth cydwybodol sy'n llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Dros gyfnod cymharol fyr, mae wedi sefydlu systemau cyfathrebu effeithiol ac ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg y staff. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu diddorol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad.

Mae trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer yr athrawon sy'n cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer disgyblion. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, cânt gyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd ac i fonitro gweithrediad ac effaith cynlluniau datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw priodol ac mae'r ysgol yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus. Trwy ddadansoddi data perfformiad, ymweld â'r ysgol i fynychu teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau, maent yn datblygu dealltwriaeth drwyadl o safonau'r ysgol ac yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach yn dda. Mae ganddynt drefn glir o wirio effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac maent yn barod i herio'r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn cymryd rhan lawn yn y broses. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn seiliedig ar godi safonau disgyblion. Maent yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer arsylwi'r addysgu, dadansoddi data, holiaduron, monitro'r cynllunio ac edrych ar waith disgyblion. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses gan lunio adroddiadau arfarnol ar y cyd â'r pennaeth ar ansawdd y ddarpariaeth a chyraeddiadau disgyblion. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn, yn rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch dysgu, addysgu a safonau

Mae'r cynllun datblygu ysgol, sydd wedi ei seilio ar ddeilliannau'r prosesau hunanarfarnu, yn nodi blaenoriaethau gwella yn glir. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n ddogfen weithredol sy'n cynnwys targedau clir a mesuradwy a chamau gweithredu addas. Mae wedi ei chostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae arfarniad y cynllun datblygu blaenorol yn drwyadl ac yn cael ei defnyddio'n dda i lywio'r cynllun presennol. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn monitro

ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol. Mae cyflawniad rhai o flaenoriaethau'r cynllun eisoes wedi arwain at welliannau mewn safonau, er enghraifft codi canrannau'r lefelau uwch mewn iaith a rhifedd yng nghyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n gryf at godi safonau a gwella lles disgyblion. Mae partneriaeth gadarn iawn gyda'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at ystod o weithgareddau, gan gynnwys mentrau codi arian i wella adnoddau technoleg gwybodaeth a chefnogi profiadau dysgu fel ymweliadau.

Mae'r arfer o rannu arbenigedd ac arfer dda gyda'r ysgolion eraill o fewn y ffederasiwn yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol staff ac ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r athrawon yn rhannu arfer dda trwy gyd-gynllunio unedau gwaith i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa hefyd wrth gyfuno gweithgareddau fel ymweliadau addysgol neu greu timau ar y cyd ar gyfer gemau a mabolgampau. Mae'r cydweithio hwn yn cyfoethogi profiadau dysgu a lles y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau da yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol sydd yn galluogi disgyblion i ymgartrefu'n hapus wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd hefyd i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r cydweithio effeithiol gydag ysgolion lleol i gyd-safoni a chymedroli lefelau gwaith disgyblion yn sicrhau cysondeb a chywirdeb yn asesiadau'r ysgol. Mae'r cysylltiadau niferus a gwerthfawr â'r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn diddanu'r henoed lleol wrth iddynt ymweld â'r ysgol yn wythnosol i dderbyn cinio gyda'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a chynorthwywyr ar gyfer cyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae cynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon ac yn cefnogi'r disgyblion yn dda wrth eu gwaith. Mae athrawon yn defnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn fuddiol. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n dda, er enghraifft drwy ddefnyddio arbenigedd aelod o staff i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Ceir rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion y ffederasiwn sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig wrth wella safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a'i chyllideb yn effeithiol gan seilio'u penderfyniadau ariannol yn briodol ar anghenion yr ysgol. Mae lefel uchel o fonitro gwariant yn digwydd yn gyson ac mae'r corff

llywodraethol yn cydweithio â'r awdurdod i weithredu cynllun adfer effeithiol i ddelio â'r gorwariant yn llwyddiannus. Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n briodol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a datblygu medrau cymdeithasol grŵp penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6692034 - Ysgol Gynradd Bancyfelin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 41 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 8 | 6 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.6 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 6 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 76.9 | 62.5 | 0.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 6 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 87.5 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 61.5 | 62.5 | 0.0 | 30.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 6 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | 37.5 | 16.7 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 8 | 6 | 13 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 61.5 | 37.5 | 0.0 | 38.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 17 | 17<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 17 | 17<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 17 | 17<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 17 | 17<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 17<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 17 | 16<br>94%<br>84% | 1<br>6%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 22 | 16 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 22 | 18 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 22 | 16 | 6 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 15 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 22 | 17 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 22 | 17 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 21 | 12 | 7 | 1 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 33% | 5% | 5% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 22 | 13 | 9 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 22 | 15 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 27% | 5% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 13 | 4 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 22 | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 45% | 5% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 22 | 15<br>68% | 6<br>27% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 22 | 13<br>59% | 9<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 22 | 14<br>64% | 8<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 9<br>53% | 8<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 22 | 13<br>59% | 7<br>32% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 22 | 16<br>73% | 6<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Dylan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vicky Griffiths | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.